Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynsaron

**Saron**
**Llandysul**
**Sir Gaerfyrddin**

**SA44 5ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynsaron

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynsaron |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 48 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 32.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 44% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 07/11/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 06/02/2023 |
| Mae un o athrawon profiadol yr ysgol yn gweithredu fel pennaeth dros dro nes i'r pennaeth newydd ddechrau ar y gwaith mewn ychydig wythnosau. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan y pennaeth dros dro adnabyddiaeth drylwyr o weithdrefnau'r ysgol, mae'n deall anghenion yr holl ddisgyblion yn dda, ac mae'n defnyddio hyn i roi cyfeiriad cadarn iddi. Mae ganddi gefnogaeth gref y llywodraethwyr, y staff cyfan, y disgyblion a'r rhieni, gan sicrhau bod yr ymdeimlad cryf o deulu a gwaith tîm yn parhau'n elfennau cadarn o fywyd yr ysgol.

Un o nodweddion pennaf yr ysgol yw'r ymdeimlad gofalgar, parchus a theuluol sy'n bodoli ynddi. Mae pob aelod staff, beth bynnag yw ei rôl, yn teimlo'n rhan greiddiol o'r gymuned ac maent bob amser yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt, lle bo angen. Maent yn ymateb yn dda i anghenion bron pob disgybl, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus, yn ymddwyn yn dda ac yn ymfalchïo eu bod yn perthyn i'r ysgol hon. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd cadarn ym mron pob agwedd o'u dysgu. Er hyn, cyfyng yw strategaethau darllen, geirfa a phatrymau iaith y lleiafrif. Mae hyn yn cyfyngu ar eu mwynhad o ddarllen, eu gallu i gywain gwybodaeth o brint a'u gallu i fynegi eu hunain yn gwbl rugl yn y Gymraeg.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion, gan ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â'r themâu. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth iddynt o'u gwaith ac yn eu hannog i roi o'u gorau. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol ar draws amrywiol feysydd y cwricwlwm nac yn sicrhau eu bod bob amser yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn dda iawn. Maent yn achub ar gyfleoedd cyfoethog i annog y disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n meithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u balchder yn ystyrlon ac effeithiol. Trwy adeiladu ar hyn, maent hefyd yn rhoi ystyriaeth gadarn i addysgu'r disgyblion, nid yn unig am eu hardal leol a Chymru, ond hefyd am le Brynsaron mewn cyd-destun ehangach.

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafaredd Cymraeg disgyblion hŷn i'w galluogi i fynegi eu hunain yn gwbl rugl

A2 Cryfhau strategaethau i alluogi disgyblion i ddeall yn well beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A3 Datblygu medrau darllen annibynnol disgyblion

A4 Cynyddu cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol ar draws meysydd amrywiol y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cymdeithasol sy'n unol â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae medrau llythrennedd a rhifedd llawer ohonynt yn llai datblygedig wrth gychwyn. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ym mron pob agwedd o'u dysgu.

Mae medrau llafaredd llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn trafod eu tasgau a mynegi eu teimladau yn addas. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafaredd yn gynyddol hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn dangos parodrwydd i sgwrsio am eu tasgau a'u profiadau dysgu mewn iaith bwrpasol gydag ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa, er enghraifft wrth iddynt esbonio eu swyddogaethau a chyflawniadau'r cyngor ysgol - Barn Brynsaron. Fodd bynnag, mae geirfa a phatrymau iaith y lleiafrif yn cyfyngu ar eu gallu i fynegi eu hunain yn gwbl rugl.

Mae medrau gwrando'r  rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar eu cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gywir a gwybodus.

Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio strategaethau ffoneg yn gynyddol effeithiol i adeiladu geiriau syml, er enghraifft wrth ddarllen a dehongli taflen wybodaeth am ffeiriau ddoe a heddiw.

Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen gyda rhuglder cynyddol yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn wybodus ac yn defnyddio strategaethau priodol i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion uwch eu gallu yn cyfeirio'n wybodus at elfennau fel awduron a dylunwyr, ac yn trafod y gwahaniaethau rhwng testunau ffuglen a ffeithiol. Fodd bynnag, mae gallu lleiafrif y disgyblion yn gyfyng wrth ddefnyddio strategaethau darllen yn annibynnol, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth o ffynonellau fel taflenni gwybodaeth ar y we.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu brawddegau syml gydag annibyniaeth gynyddol gan roi sylw addas i atalnodi sylfaenol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth a'u gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau fel llythyr at Aled Afal, neu gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud brechdan.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau ar draws y cwricwlwm gan amlygu dealltwriaeth dda o reolau gramadegol, pwrpas, ffurf a chynulleidfa. Maent yn cynhyrchu darnau diddorol o ysgrifennu estynedig gyda'r goreuon yn arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd strwythur ac yn amlygu dychymyg a gwreiddioldeb wrth greu ymsonau a hunangofiannau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol. Maent yn adeiladu'n drefnus ar eu dealltwriaeth gadarn, gynnar o werth lle a bondiau rhif, ac yn cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r pedair rheol. Mae gan y rhan fwyaf afael gadarn o fedrau mesur ac maent yn defnyddio graddfeydd yn briodol i ddatrys problemau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gwaith thema cyfredol. Maent yn cysylltu eu medrau rhifedd yn gelfydd â medrau eraill sy'n berthnasol i'r thema ac yn defnyddio cyfryngau amrywiol i fynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn cyd-destunau ysgogol. Un enghraifft nodedig, sydd wedi bod yn gyfle defnyddiol a chyffrous i ddisgyblion yr ysgol gyfan gyfuno'u gwybodaeth o'u hardal leol â'u medrau rhifedd, creadigol a lles i greu cyfanwaith, yw'r prosiect cogiau. Yn dilyn ymweliad â'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol, sydd nid nepell o safle'r ysgol, mae'r disgyblion wedi cydweithio ag artist lleol i ddefnyddio'u gwybodaeth am ffracsiynau ac onglau i greu murluniau creadigol a lliwgar. Mae'r gwaith hwn yn cyfleu'r neges bwysig fod gan bob un disgybl ei gyfraniad uniongyrchol i sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus a chynhyrchiol yn yr un modd â bod angen i bob cog weithio i alluogi peiriant droi'n esmwyth.

Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau digidol yn briodol, gan ddefnyddio ystod o raglenni yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn creu graff i ddangos hoff lenwad brechdan disgyblion y dosbarth ac yn bwydo cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy yn annibynnol.

Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn datblygu nifer o fedrau digidol yn lled hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhaglenni aml-gyfrwng cyfarwydd i gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'u hoff arwr. Maent yn datblygu eu medrau codio i lunio triongl â nodweddion penodol, ac yn llunio graffiau pwrpasol gan ddefnyddio data a gasglwyd ar guriad y galon. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso digon ar eu medrau digidol ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder amlwg tuag at eu hysgol ac maent yn hynod hapus o fewn yr amgylchedd croesawgar, gofalgar a theuluol. Maent yn dangos gofal a pharch at ei gilydd a thuag at oedolion gan gynnwys y rhai sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel ar-lein.

Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod y gwersi ac amserau egwyl, gyda'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r rhai ieuengaf yn aeddfed a gofalgar. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau yn agored ac i ddangos empathi ag eraill, yn cynnwys pobl fregus neu'r rhai sydd mewn cyfyngder. Enghraifft dda o hyn yw'r modd cydwybodol y mae'r disgyblion yn arwain gweithgareddau codi arian tuag at elusennau sy'n berthnasol iddynt, fel cefnogi cyflyrau fel parlys yr ymennydd a chancr.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu lles a'u ffitrwydd. Maent yn deall yr angen i fwyta'n iach a

chadw'n heini, gan ymrwymo i weithgareddau corfforol fel Chwysu Chwarter a'r ystod o gemau a arweinir gan y Llysgenhadon Efydd yn ystod amser egwyl.

Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi bod eu llais yn cael lle canolog ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cydnabod bod oedolion yn gwrando arnynt trwy weithgarwch fel 'Barn Brynsaron' ac yn croesawu'r cyfleoedd i gynnig syniadau ar yr hyn maent am ei ddysgu o fewn y themâu. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill mewn modd cwrtais ac aeddfed, gan wrando'n astud arnynt a derbyn barnau gwahanol yn rhesymol a chytbwys.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau eu tasgau ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu o'u cyfnod cynharaf yn yr ysgol. Maent yn cydweithio'n dda ac yn wynebu heriau newydd ac anghyfarwydd gyda chwilfrydedd, gwydnwch a hyder cynyddol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol at eu gweithgareddau dysgu.

Mae llawer yn galw i gof ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn briodol. Maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio a chymhwyso ystod eang o fedrau yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u dealltwriaeth o nodweddion graffiau i arddangos effaith ymarfer corff ar guriad y galon mewn gwersi gwyddoniaeth.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n dda wrth eu tasgau. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol o fewn ffiniau amser, ac yn deall bod angen iddynt geisio datrys heriau eu hunain drwy ddefnyddio strategaethau fel gofyn i ffrind, neu gyfeirio at adnoddau eraill, cyn gofyn am gymorth oedolyn. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder at eu gwaith ac yn ei gyflwyno'n daclus a threfnus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol i ddisgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau dysgu eang iddynt mewn amgylchedd ddysgu ysgogol a chefnogol. Mae'r dosbarthiadau a'r mannau cyhoeddus yn lleoedd lliwgar, diddorol a difyr lle gall disgyblion o bob oed a gallu ddysgu'n gynhyrchiol. Gwneir defnydd priodol o'r ardaloedd allanol i ddatblygu medrau a gwybodaeth disgyblion ymhellach. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol yn yr awyr agored wrth daflu peli at ganiau â rhifau arnynt mewn stondin yn y ffair a chyfrifo cyfanswm i adolygu eu dealltwriaeth o fondiau rhif.

Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio'n briodol yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae camau cadarn ar waith i sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn bodloni egwyddorion a disgwyliadau'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, mae athrawon wedi addasu eu themâu'n llwyddiannus yn seiliedig ar syniadau'r disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r awgrymiadau hyn yn grefftus i gynllunio ystod gynhwysfawr o brofiadau a gweithgareddau gwerthfawr ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae themâu ysgogol fel 'Y Ddraig' ac 'Arweinwyr Arwrol' yn hybu brwdfrydedd disgyblion ac yn eu hannog i ymgysylltu â'u dysgu yn effeithiol.

Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw'r modd y mae athrawon ac ymarferwyr yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru. Trwy gynllunio themâu cyfoethog fel 'Cynefin', mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon iddynt. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol a phrofiadau cyfoethog iddynt sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i lle yn y gymuned leol yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, trefnir ystod o ymweliadau amrywiol â mannau diddorol yn lleol a thu hwnt, fel yr amgueddfa wlân leol a'r castell cyfagos yng Nghastell Newydd Emlyn i symbylu gwaith y tymor.

Mae'r staff yn dylunio'r cwricwlwm yn adeiladol a chydlynus yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fedrau disgyblion. Mae hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn eu dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn amrywiol a phwrpasol ac yn datblygu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn bwrpasol yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu a phrofiad, yn arbennig eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwriadus gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo. Mae athrawon yn gosod amcanion priodol ar ddechrau gwersi ac yn dechrau defnyddio meini prawf llwyddiant i sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau. Maent yn defnyddio technegau holi yn grefftus i helpu disgyblion i ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ymhellach. Yn ystod sesiynau dysgu, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon ac ymarferwyr eraill yn ymateb yn rhagweithiol i ddysgu disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn rhoi adborth gwerthfawr iddynt ar safon eu cyflawniadau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau cyffredinol yr ysgol bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn union yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn symud i'r cam nesaf yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar ac ysgogol sy'n meithrin gwerthoedd cytûn yn seiliedig ar barch ac empathi. Mae'n cynnig sail gadarn i baratoi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol y dyfodol. Mae'r pwyslais parhaus ar hyrwyddo diogelwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, a chyfle cyfartal, ynghyd â gwerthfawrogi cyfraniad pob unigolyn, yn elfen ganolog o weledigaeth arweinwyr yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn peri pryder.

Mae'r staff yn darparu cymorth effeithiol i hybu lles, iechyd meddwl a chorfforol disgyblion. Mae'r elfen hon yn gryfder o fewn y ddarpariaeth. Mae strategaethau fel y sesiynau lles wythnosol, a'r defnydd o'r Cwtsh Hapus a'r Cwtsh Caredig, yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar les ac ymrwymiad y disgyblion i'w dysgu.

Mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn darparu'n llwyddiannus ar eu cyfer. Mae gan ddisgyblion broffil un dudalen sy'n nodi gwybodaeth benodol am eu hanghenion ac mae gweithdrefnau olrhain cynnydd cadarn yn nodi eu cynnydd mewn perthynas â'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu'n fwriadus ar gyfer cefnogi lles ac anghenion pob disgybl gan

gynnwys y disgyblion hynny sydd ag ADY, er enghraifft drwy ddarparu ystod benodol o raglenni ymyrraeth bwrpasol ac effeithiol.

Mae gan yr ysgol gyswllt agos a chynhyrchiol ag ystod o asiantaethau allanol fel y tîm iaith a lleferydd, y seicolegydd addysg a'r tîm ymddygiad yn yr awdurdod lleol. Mae'n manteisio'n llawn ar eu harbenigeddau i gefnogi'r ddarpariaeth ADY yn barhaus. O ganlyniad, mae staff yn adnabod anghenion y garfan hon o ddisgyblion yn drylwyr ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn fwriadus iawn. Mae'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli, ynghyd â'r ystod amrywiol o gyfleoedd cyfoethog a ddarperir, yn fodd effeithiol o hyrwyddo dealltwriaeth a datblygiad y disgyblion yn yr agweddau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau meddylgarwch yn y ddau ddosbarth, y sesiynau cydaddoli, y gwersi addysg grefyddol a'r cyfleoedd cyson a gânt i fynychu'r capel lleol ar gyfer dathliadau penodol adeg y Diolchgarwch a'r Nadolig.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion leisio'u barn a chynnig sylwadau buddiol ynglŷn â'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol, sef Barn Brynsaron, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt arwain digwyddiadau elusennol fel te prynhawn i godi arian at wahanol elusennau. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fwydo eu syniadau i gynlluniau themâu'r dosbarthiadau. Mae hyn yn fodd pwerus o hyrwyddo diddordeb a pherchnogaeth y disgyblion dros eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn dda iawn. Achubir ar gyfleoedd i rannu a dathlu'r Gymraeg a Chymreictod drwy ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a balchder y disgyblion yn ystyrlon ac effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys Cymro neu Gymraes yr wythnos, gweithgareddau cefnogi tîm pêl droed Cymru yng Nghwpan Y Byd, a dysgu am yr Hen Galan a thraddodiad y Fari Lwyd. Enwir y dosbarthiadau, Cloddi a Siedi, ar ôl dwy nant leol, sydd eto'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddeall a pharchu credoau ysbrydol a moesol yn dda iawn. Yn ogystal â Christnogaeth, mae'r ddarpariaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu am grefyddau eraill gan gynnwys gwyliau fel Diwali, Holi a'r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd, sy'n ennyn ymateb chwilfrydig ymhlith bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth yn meithrin creadigrwydd y disgyblion yn effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd eang a gwerthfawr iddynt gyfranogi mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys sioeau'r ysgol, cyngherddau cymunedol, eisteddfodau a gweithgareddau'r Urdd.

Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i gymryd rhan yn gyson mewn ystod o weithgarwch sy'n hybu iechyd corfforol a ffitrwydd. Er enghraifft, cynhelir sesiynau ffitrwydd dyddiol yn ystod amserau egwyl, gwersi nofio a sesiynau rygbi. Mae'r rhain oll yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu unigolion uchelgeisiol, iach a hyderus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r ysgol wedi penodi pennaeth newydd ond ni fydd yn cychwyn yn y rôl am rai wythnosau eto. Yn y cyfamser, mae un o athrawon profiadol yr ysgol yn gweithredu'n gydwybodol iawn fel pennaeth dros dro. Mae ganddi adnabyddiaeth drylwyr o weithdrefnau'r ysgol, mae'n deall anghenion yr holl ddisgyblion yn dda, ac mae wedi defnyddio hyn i roi cyfeiriad cadarn ac effeithiol dros y cyfnod y bu â gofal amdani.

Mae gan y pennaeth dros dro gefnogaeth gref y llywodraethwyr, y staff cyfan, y disgyblion a'r rhieni, gan sicrhau bod yr ymdeimlad cryf o deulu a gwaith tîm yn parhau'n elfennau cadarn o fywyd yr ysgol. Mae'n cyfleu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus ymhlith y rhanddeiliaid hyn. Mae honno'n seiliedig ar greu amgylchedd hapus, croesawgar a diogel i'r disgyblion a'r staff. Mae'n rhoi pwyslais ar ddatblygu unigolion brwdfrydig, hyderus ac annibynnol sy'n cymryd balchder yn yr ysgol, yr ardal leol a'u Cymreictod. Mae hanfodion y weledigaeth hon yn glir ar draws yr ysgol, lle mae'r disgyblion yn frwdfrydig yn eu gwaith ac yn hynod falch o'u hysgol. Mae pob aelod staff, gan gynnwys y gogyddes a'r gofalwr, yn chwarae rhan greiddiol i hyrwyddo'r gwerthoedd teuluol hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i gywain tystiolaeth sy'n galluogi arweinwyr i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Trwy weithredu'r rhain yn gyson, mae arweinwyr wedi adnabod cryfderau'r ysgol ynghyd â meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn y ddarpariaeth a'r addysgu. Yn sgil hyn, maent wedi cyflwyno gwelliannau sydd eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol ym mron pob maes dysgu a phrofiad.

Mae'r ysgol yn canfod barn rhieni yn ei gweithdrefnau hunanwerthuso ac yn darparu cyfleoedd penodol iddynt drafod materion y maent yn eu hystyried yn bwysig. Mae hefyd yn cynnwys y staff a'r disgyblion yn y broses. Mae cynnal gweithgareddau fel craffu ar lyfrau, ymweld â dosbarthiadau a chynnal trafodaethau penodol mewn cyfarfodydd staff wedi helpu arweinwyr i adnabod blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer y cynllun datblygu. Mae'r ysgol yn cynllunio ei gweithgareddau gwella i ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn, yn datblygu ei strategaethau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn ymateb yn briodol i ofynion y ddeddf ADY newydd.

Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n addas fel ffrindiau beirniadol. Maent yn deall eu rôl, yn mynd i'r afael â'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn gydwybodol. Maent yn ymwybodol o flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae gan y corff llywodraethol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n rheoli adnoddau ariannol cyfredol yr ysgol yn briodol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Er hyn, mae diffyg hanesyddol yng nghyllidoeb yr ysgol ond mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol ohono.

Mae gan y pennaeth dros dro, y staff a'r llywodraethwyr berthynas agos a chynhyrchiol â rhieni. Maent yn sicrhau bod ganddynt linellau cyfathrebu effeithiol â nhw fel cyfrwng iddynt godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae'r ysgol yn anfon cylchlythyr wythnosol i hysbysu rhieni am weithgareddau

penodol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am feysydd fel y newidiadau i’r cwricwlwm, neu'r cymorth y gallant ei roi i’w plant, yn arbennig os oes ganddynt anghenion ychwanegol. Mae’r gymdeithas rieni yn weithgar iawn, ac wedi ariannu newidiadau i’r ardal allanol yn ddiweddar, ynghyd â chyfrannu at gostau teithiau addysgol er mwyn galluogi pob disgybl i’w mynychu.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â'r cylch meithrin sydd bellach ar dir yr ysgol. Mae hyn yn hwyluso trefniadau plant i drosglwyddo'n esmwyth a hapus i’r ysgol, ac yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg cyn cychwyn.

Mae'r pennaeth dros dro, mewn partneriaeth â swyddogion yr awdurdod lleol ac arweinwyr profiadol o ysgolion cyfagos, yn darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr i’r holl staff, ac yn arbennig i’r ddau athro newydd. Mae’r cyfleoedd i staff ddysgu’n broffesiynol yn cysylltu’n briodol â chanfyddiadau’r gweithdrefnau hunanwerthuso, y blaenoriaethau gwella ac anghenion proffesiynol yr unigolion. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth staff o ddulliau addysgu effeithiol ac yn eu cefnogi i’w defnyddio er mwyn gwella eu hymarfer a sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2023